

# Datganiad o Ddiben

## Gwasanaeth Maethu Cymru

Medi 2025

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
**Rhif Cofrestru W/010000722/M001/0006**

Cyfeiriad ein Gwasanaeth Maethu:
**Tŷ Britannia, Heol y Fan, Caerffili, CF83 3GG. Ffôn: 02920 484316**

BARNARDO'S CYMRU

Newid Plentyndod.
Newid Bywydau.
Changing childhoods.
Changing lives.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Fframwaith Cyfreithiol | 3 |
| Neges gan y Prif Weithredwr | 4 |
| Statws a Chyfansoddiad | 5 |
| Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion | 6 |
| Manylion Cofrestru'r Gwasanaeth | 8 |
| Gwasanaeth a Strwythur Staff | 9 |
| Cartrefi Maeth a Ddarperir Gennym | 12 |
| Recriwtio a Chymorth ar gyfer Teuluoedd Maeth | 13 |
| Ansawdd, Monitro a Llywodraethiant | 16 |
| Cwynion, canmoliaeth, honiadau, chwythu'r chwiban | 17 |
| Rheoleiddio ac Arolygu | 20 |


**"Diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth, y cyngor a'r cyfleoedd hyfforddi oedd ar gael i mi. Rwy'n hynod ddiolchgar eich bod chi a'r panel adolygu wedi cytuno i ail-gymeradwyo fy safle gyda'ch sefydliad."**

Rhiant Maeth



# Fframwaith Cyfreithiol

Datblygwyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

**Deddf Plant 1989**

Deddf Plant 2004

**Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008**

Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

**Protocol Amddiffyn Plant yn cefnogi rhieni maeth – delio â honiadau yn erbyn rhieni maeth (Canllawiau, 2011)**

Diwy Services Regulations 2013 miscellaneous amendments known as: The Care Planning, Placement and Case Review (Wales) regulations 2015

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018**

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol - Gwasanaethau Maethu (2019)

Fel rhan o'r gofyniad rheoleiddio, bydd copi o'r Datganiad o Ddiben yn cael ei ddarparu i Arolygiaeth Gofal Cymru [AGC] a bydd yn cael ei roi ar wefan Barnardo's. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar gais i: staff, Awdurdodau Lleoli, rhieni maeth, darpar rieni maeth a phlant/pobl ifanc.

Paratowyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â'r gofynion hyn a bydd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i staff Barnardo's, rhieni maeth a darpar rieni maeth, plant a phobl ifanc sydd wedi'u lleoli gyda'r gwasanaeth maethu, a hefyd gyda chydweithwyr o asiantaethau eraill.

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, ac o leiaf bob blwyddyn.



# Neges gan y Prif Weithredwr




**Ers dros 150 o flynyddoedd, mae Barnardo's wedi bod yn newid plentyndod a bywydau, gan gynnwys drwy ein gwaith yn helpu cannoedd o filoedd o blant a phobl ifanc i fyw gyda theuluoedd maeth a rhieni mabwysiadol cariadus.**

Mae Barnardo's yn cefnogi tua 370,000 o blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr bob blwyddyn, a hynny drwy ein gwasanaethau a'n partneriaethau ledled y DU.

Rydym yn credu ym mhob plentyn a pherson ifanc ac yn ei botensial. Rydym yn eu cefnogi, yn sefyll yn gefn iddyn nhw ac yn ennyn y gorau ym mhob un ohonyn nhw.

Rydym yn cefnogi rhieni maeth i groesawu plant a phobl ifanc sydd angen cartref cariadus a chefnogol. Rydym yn darparu dros 20 o wasanaethau maethu, mabwysiadu a seibiant wedi'i gynllunio i deuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc o bob oed, rhyw, hil a gallu. Mae ein gwaith paratoi cynhwysfawr, ein hyfforddiant a'n cymorth 24/7 i rieni maeth yn ein gwneud ni'n ddewis dibynadwy ar draws y DU.



**Lynn Perry MBE**
Prif Weithredwr, Barnardo's



# Statws a Chyfansoddiad Barnardo's



Mae Barnardo's yn gwmni cyfyngedig drwy warant (a gofrestrwyd yn Lloegr dan rif 61625) ac yn elusen gofrestredig (rhifau 216250 a SC037605). Fe'i cofrestrwyd hefyd fel corfforaeth ymddiried ar 16 Rhagfyr 1926. Ei offeryn llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, a ddiwygiwyd yn fwyaf diweddar drwy benderfyniad arbennig a basiwyd ar 17 Gorffennaf 2001.

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru yn rhan o Wasanaethau Lleoli gyda Theuluoedd Barnardo's.

Brenda Farrell yw Pennaeth Maethu a Mabwysiadu.

Prif Swyddfa'r Gwasanaeth Lleoli gyda Theuluoedd:
**Barnardo's Youth Village**

**Hudson Street**
**North Shields**
**NE30 1DL**

Rhif ffôn: **0191 296 3355**

Rheolwr y gwasanaeth yw Martin Kaid.

**Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru,**
**Tŷ Britannia,**
**Heol y Fan,**
**Caerffili,**
**CF83 3GG**

Ffôn: **02920 484316**

# Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion

## Nodau

Mae Barnardo's yn asiantaeth faethu annibynnol, genedlaethol, flaenllaw, sy'n darparu gwasanaeth maethu a gofal maeth seibiant wedi'i gynllunio ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ein nod yw sicrhau cartrefi maeth sefydlog o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc drwy sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu recriwtio, eu hasesu, eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol o fewn y rheoliadau gofynnol a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

## Amcanion a Chanlyniadau

1. Diogelu plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
2. Recriwtio, asesu, cefnogi a hyfforddi rhieni maeth i ddarparu amrywiaeth o gartrefi maeth i blant/pobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd cyntaf.
3. Darparu cartrefi maeth seibiant wedi'u cynllunio ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n byw gyda'u teuluoedd cyntaf, a'r rhai sy'n byw gyda'n rhieni maeth.
4. Sicrhau bod recriwtio rhieni maeth yn cyfateb i anghenion y plant/pobl ifanc rydym yn ceisio gofalu amdanyn nhw yn ein cartrefi maeth, er mwyn i blant/pobl ifanc gael cyfle i fyw mewn teulu sy'n gwerthfawrogi, yn cydnabod ac yn cefnogi eu tarddiad ethnig, eu treftadaeth ddiwylliannol, eu crefydd.
5. Darparu cefnogaeth, goruchwyliaeth reolaidd a chyfleoedd hyfforddi i alluogi rhieni maeth i ddiwallu anghenion cymhleth y plant/pobl ifanc yn ein cartrefi maeth.
6. Sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a gofynnol yn cael eu bodloni mewn perthynas â chymeradwyo, adolygu a goruchwylio rhieni maeth a darparu cartrefi maeth i blant/pobl ifanc, a monitro eu bod yn cael eu bodloni drwy brosesau sicrhau ansawdd.
7. Darparu gwasanaeth llinell gymorth 24/7 i rieni maeth.
8. Hyrwyddo ymlyniadau diogel a sefydlogrwydd cartrefi maeth i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'w hiechyd, addysg, cyflogaeth ac annibyniaeth yn y dyfodol.
9. Paratoi plant/pobl ifanc yn ddigonol ar gyfer gadael eu teulu maeth a chreu ymlyniadau gydol oes gyda rhieni maeth.
10. Cynnal a hyrwyddo cysylltiad rhwng rhwng plant maeth a'u teuluoedd cyntaf a/neu bobl arwyddocaol eraill, a chyfathrebu'n effeithiol â rhieni fel y bo'n briodol.
11. Hyrwyddo cysylltiadau/partneriaethau gwaith cadarnhaol rhwng y gwasanaethau maethu, mabwysiadu a seibiant wedi'u cynllunio sydd gan Barnardo's ac awdurdodau lleol neu ymddiriedolaethau er mwyn hwyluso dulliau cyfathrebu a hyrwyddo arferion da er budd plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu gan y gwasanaeth.
12. Sicrhau bod y Panel Maethu annibynnol yn gweithredu'n effeithiol yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau mewn perthynas â chymeradwyo rhieni maeth, adolygiadau, honiadau a chwynion.
13. Sicrhau bod y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn datblygu yn ystyried barn a dymuniadau ei rieni maeth, y plant maeth a'r staff drwy annog adborth gan bawb yn y cartref maeth.
14. Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd.
15. Sicrhau gwelliant a datblygiad parhaus y gwasanaethau maethu drwy hyfforddiant rheolaidd i staff ynghylch newidiadau i ddeddfwriaeth a rheoliadau, a nodi'r anghenion a'r math o gartrefi maeth arbenigol sydd eu hangen.

## Cynnig Cymraeg

Mae Barnardo's yn dangos parch tuag at yr iaith Gymraeg yn ystod pob gweithgaredd gan gydnabod yr angen i ymateb i anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg mewn modd priodol. Mae Gwasanaethau Lleoli gyda Theuluoedd Barnardo's Cymru wedi ymrwymo'n llawn i fodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

O fewn Barnardo's Cymru, mae rôl uwch reoli arweiniol yn benodol ar gyfer y Gymraeg a Grŵp Strategaeth Iaith Gymraeg gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae Barnardo's yn darparu gwasanaethau yn y fro Gymraeg; mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill lle mai'r Gymraeg yw iaith busnes.

.

Rydym yn rhoi 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn gyson o ran ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg ar draws ein holl wasanaethau yng Nghymru ac yn gweithredu'n ddwyieithog o ran arwyddion (cyhoeddusrwydd ac adeiladau), hysbysebion, gwefannau, recriwtio a staffio, a deunyddiau cefnogi sy'n sicrhau nad yw'r naill iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r llall. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau'r canlynol yn gadarnhaol:

- Mae pob plentyn, person ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybod y gallant gael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Gellir darparu pob gohebiaeth gychwynnol i deuluoedd yn ddwyieithog.
- Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru â phlant a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg.
- Byddwn yn ystyried y teuluoedd yn y gymuned ac yn gwneud teuluoedd yn ymwybodol o ble y gallant gael gwasanaeth dwyieithog; gan ddarparu capasiti dwyieithog i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n briodol ac yn amserol.



# Cofrestru gyda'r Gwasanaeth



Rheolwr y gwasanaeth yw Martin Kaid.

Cyfeiriad y Gwasanaeth:
**Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru,**
**Tŷ Britannia,**
**Heol y Fan,**
**Caerffili,**
**CF83 3GG**
Ffôn: **02920 484316**

Cymwysterau a phrofiad perthnasol y Rheolwr Cofrestredig Martin Kaid – Dip SW/ ILM 5, Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig ers 2003, wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Yr Unigolyn Cyfrifol yw Brenda Farrell.

Prif Swyddfa'r Gwasanaeth Lleoli gyda **Theuluoedd:**
**Barnardo's Youth Village,**
**Hudson Street,**
**North Shields**
**NE30 1DL**
Rhif ffôn: **0191 2963 355**

Unrhyw amodau cofrestru ar y Darparwr Cofrestredig: *Nid oes unrhyw amodau ar y darparwr hwn.*

Fel sefydliad cenedlaethol, gallwn ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau swyddfa fel sy'n briodol, i ddiwallu ein hanghenion busnes, ledled Cymru a'r DU.

# Gwasanaeth a Strwythur Staff

**Brenda Farrell** yw'r Unigolyn Cyfrifol
Llawn-amser (37)
Dip / CCETSW/BA(Hons)/NVQ5

**Sarah Morgan**, Pennaeth
Busnes Cynorthwyol
Llawn-amser
(37) Dip SW

**Martin Kaid** yw'r Rheolwr
Gweithrediadau.
Llawn-amser (37)
Dip SW / ILM 5

Rheolwr Practis
Llawn-amser (37)

Gweithiwr
Cymdeithasol 22
awr

Gweithiwr
Cymdeithasol 30
awr

Swyddog
Marchnata
18.13 awr

Rheolwr Cefnogi
Busnes
18.13 awr

Gweinyddwr y
Gwasanaeth,
36.25



# Swyddi a chymwysterau

## Unigolyn Cyfrifol

Mae Brenda Farrell yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Social Work England. Mae ganddi gymwysterau rheoli cydnabyddedig ac mae'n Bennaeth Busnes ar gyfer mabwysiadu a maethu ar ran Barnardo's ledled y DU. Mae'n adrodd i Fwrdd ymddiriedolwyr Barnardo's a Chyfarwyddwr Masnachol yr Uned Datblygu Busnes Gwasanaethau Plant.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol ystod benodol o ddyletswyddau a chyfrifoldebau i'w cyflawni fel y nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

## Pennaeth Busnes Cynorthwyol

Mae Sarah Morgan yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Cymhwysodd Sarah fel Gweithiwr Cymdeithasol yn 2002 a chwblhaodd ei chymhwyster "Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol" yn 2012. Ers iddi gymhwyso, mae wedi gweithio mewn amrywiol dimau gofal plant, gan gynnwys rheoli amddiffyn plant; maethu; a gwasanaethau mabwysiadu mewn awdurdod lleol. Bu Sarah hefyd yn rheolwr cofrestredig asiantaeth faethu annibynnol am naw mlynedd cyn ymuno â Barnardo's ym mis Mawrth 2022.

Mae'r Pennaeth Busnes Cynorthwyol yn gyfrifol am reolaeth strategol a goruchwylio'r gwasanaeth maethu, ei swyddogaethau a'i feysydd cyfrifoldeb ac mae'n adrodd i'r Unigolyn Cyfrifol. Y Pennaeth Busnes Cynorthwyol yw'r rhyngwyneb strategol rhwng Gwasanaeth Cymru a gwasanaethau maethu Barnardo's ledled y wlad. Mae gan y Pennaeth Busnes Cynorthwyol gylch gwaith i sicrhau ansawdd ac mae'n cyflawni swyddogaeth Swyddog Penderfyniadau'r Asiantaeth.

## Rheolwr Gweithrediadau

Mae Martin Kaid yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ganddo Ddyfarniad ILM Lefel 5 mewn Rheoli ac Arwain. Mae Martin wedi cymhwyso ers 2003, gan weithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid; fel swyddog i'r Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol, asesydd annibynnol, a rheolwr gwasanaeth ar gyfer Action for Children-Gweithredu dros Blant yn ogystal â Gwasanaethau Plant Barnardo's, cyn dod yn Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru. Mae Martin wedi cael ei gyflogi gan Barnardo's ers 2011.

Mae'r Rheolwr Gweithrediadau yn gyfrifol am reoli cyllidebau ac mae'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu nodau ac amcanion strategol y sefydliad, ac mae'n gyfrifol am reoli Rheolwyr Practis, mae'n eistedd ar y Panel fel Cynghorydd y Panel. At hynny, mae'n sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn cwblhau archwiliadau o'r gwasanaeth i sicrhau safon uchel, ac yn monitro a chynghori ar gwynion a honiadau difrifol gan sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn a bod mesurau diogelu ar waith.

## Rheolwr Practis

Mae Max, ein Rheolwr Practis, yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig ers 2010 ac mae wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae wedi gweithio mewn timau Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol ac wedi dechrau gweithio ym maes maethu mewn gwasanaeth maethu awdurdod lleol yn 2018. Yn ystod ei yrfa, mae Max wedi bod yn Weithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol mewn awdurdod lleol a gyda dau ddarparwr gwasanaeth maethu annibynnol. Mae hefyd wedi bod yn Rheolwr Gweithrediadau mewn darparwr gwasanaeth maethu annibynnol.

Ymunodd Max â Barnardo's ym mis Mehefin 2025 ac mae'n gyfrifol am oruchwylio a rheoli achosion Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol. Mae Max yn gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau i gefnogi rhieni maeth a chydlynu hyfforddiant, ochr yn ochr â chyfrifoldebau dros recriwtio ac asesu rhieni maeth. Bydd hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod y gwasanaeth maethu yn bodloni gofynion rheoleiddio.

## Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol

Mae ein Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol cymwysedig wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac maen nhw'n asesu, yn cefnogi ac yn adolygu rhieni maeth bob blwyddyn. Mae Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol yn gweithio mewn partneriaeth â Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn sy'n derbyn gofal i hyrwyddo canlyniadau da. Mae Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol hefyd yn cefnogi hyfforddiant, yn cydlynu grwpiau cefnogi, ac yn gyfrifol am y gwasanaeth llinell gymorth y tu allan i oriau. Yng Ngwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru mae Gweithwyr Cymdeithasol cymwysedig wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfateb i 2.4 o swyddi llawn-amser.

## Swyddog Marchnata

Mae'r swyddog marchnata yn cymryd cyfrifoldeb dros gwblhau cynlluniau recriwtio rhieni maeth. Mae'r swyddog marchnata yn gweithio gyda thîm marchnata cenedlaethol Barnardo's, gan ddefnyddio ffyrdd creadigol ac arloesol o recriwtio rhieni maeth. Mae un swydd Swyddog Recriwtio, sy'n cyfateb i 0.5 swydd gyfwerth ag amser llawn.

## Swyddog Lleoliadau

Mae'r swyddog lleoliadau'n creu cysylltiadau gydag awdurdodau /ymddiriedolaethau lleoli, yn darllen yr holl atgyfeiriadau a dderbynnir ac yn paru plentyn/person ifanc yn ofalus ag un o'r rhieni maeth. Mae hyn yn golygu trefnu cyfarfodydd cynllunio ac mae'n cynnwys cwblhau'r holl waith papur perthnasol.

## Rheolwr Cefnogi Busnes

Mae gan y rheolwr cymorth busnes ddyletswyddau ariannol gan gynnwys anfonebu a thaliadau rhieni maeth. Maen nhw'n gyfrifol am iechyd a diogelwch mewn swyddfeydd, ac yn goruchwylio'r gweinyddwyr. Mae'r Rheolwr yn meddu ar NVQ Lefel 3 mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid a Gwasanaethau Ariannol a thystysgrif ILM Lefel 4 mewn Arwain a Rheoli. Maen nhw'n gyflogedig gan Barnardo's ers 2001.

## Gweinyddwyr

Maen nhw'n ymgymryd ag ystod eang o dasgau gweinyddol i gefnogi gwaith y gwasanaeth megis mewnbynnu a monitro data ystadegol, cydlynu hyfforddiant, gwaith gweinyddu'r panel a sicrhau bod yr holl archwiliadau a gwiriadau rheolaidd yn cael eu cwblhau. Mae gan y gweinyddwr NVQ Lefel 4 mewn Busnes a Gweinyddu Proffesiynol ac mae wedi mynychu hyfforddiant Gweinyddwr Panel Coram BAAF, hyfforddiant Gwneud Penderfyniadau Asiantaeth y Rhwydwaith Maethu, a gweithdai Charms. Mae'n gyflogedig gan Barnardo's ers 2011.

## Tîm

Mae amrywiaeth o arbenigedd yn y tîm o flynyddoedd o brofiad ym maes maethu a gofal cymdeithasol, yn cynnwys gwaith cymdeithasol gofal plant, diogelu, troseddau ieuenctid, derbyn ac asesu, iechyd meddwl preswyl, tai a chamddefnyddio sylweddau.

Yn ogystal â'r strwythur staffio uchod, mae'r gwasanaeth yn cyflogi cronfa fach o weithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol cymwysedig annibynnol sy'n ymgymryd ag asesiadau Ffurflen F lle bo angen, yn ogystal â therapyddion proffesiynol sydd ar gael i wneud gwaith uniongyrchol yn unol â chynlluniau gofal a chymorth plant unigol.

# Cartrefi Maeth a Ddarperir Gennym

### Tymor Byr

Mae cartrefi maeth tymor byr am gyfnodau byr ond gallant bara am hyd at ddwy flynedd, tra bo cynlluniau'n cael eu gwneud.

### Tymor hir/Parhaol

Mae'r rhain yn gartrefi maeth lle cytunwyd y bydd y plentyn/person ifanc yn aros gyda'r rhieni maeth ar sail hirdymor/parhaol.

### Brodyr a Chwiorydd

Mae gennyn ni rieni maeth sy'n darparu cartrefi i frodyr a chwiorydd fel nad oes angen iddyn nhw gael eu gwahanu.

### Pan Fydda i'n Barod

Mae'r rhain yn galluogi pobl ifanc i aros yn eu cartref maeth ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed, a bydd rhieni maeth yn eu cefnogi yn ystod y cyfnod pontio i fod yn oedolion a byw'n annibynnol.

### Plant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches

Mae nifer o'n rhieni maeth yn fedrus wrth ddarparu cartrefi i blant/pobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain o dramor ac yn chwilio am le diogel.

### Plant a phobl ifanc anabl

Rydym yn darparu cartrefi maeth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd ychwanegol a/neu anabledd.

### Gofal Maeth Seibiant/Gofal Maeth Seibiant Allanol

Mae gennym rieni maeth sy'n darparu gofal maeth seibiant rheolaidd neu ar gyfer gwyliau untro. Gall y rhain fod ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n byw gartref gyda'u rhieni, plant/pobl ifanc sy'n byw gyda'n rhieni maeth neu blant/pobl ifanc o asiantaethau maethu eraill.

### Rhiant a Phlentyn

Mae'r rhain yn gartrefi maeth i rieni a'u plant sydd o dan 18 oed, er mwyn iddyn nhw allu cael cymorth i ddatblygu sgiliau magu plant. Mae rhieni maeth yn cynorthwyo awdurdodau lleol/ymddiriedolaethau gydag asesiadau drwy ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â gallu/galluoedd magu plant.



# Recriwtio a Chefnogaeth i Deuluoedd sy'n Maethu

Mae polisïau, gweithdrefnau a safonau Barnardo's ar gyfer recriwtio ac asesu rhieni maeth yn unol â'r rheoliadau a safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau maethu.

## Ymholiadau

Ar ôl derbyn ymholiad gan ddarpar riant maeth, rydym yn gofyn am wybodaeth sylfaenol ac yn darparu pecyn gwybodaeth. Yna trefnir ymweliad cartref cychwynnol i drafod gwaith y gwasanaeth yn fanylach ac i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gan yr ymholwr. Gwneir penderfyniad p'un a yw'r darpar riant maeth yn addas i fwrw ymlaen, ac yn dymuno gwneud hynny.

## Asesu a Chymeradwyo

Os yw darpar riant maeth yn addas ac yn dymuno bwrw ymlaen, cwblheir ffurflen cais am asesiad / cofrestru diddordeb gan gynnwys caniatâd i'r Gwasanaeth Maethu gynnal gwiriadau cefndir i ganfod addasrwydd i faethu.

Mae dwy ran i'r broses o asesu addasrwydd person i faethu. Cyfeirir at hyn fel Cam 1 a Cham 2. Gellir cyflawni'r camau hyn ar yr un pryd, ond rhaid ceisio'r wybodaeth ar gyfer Cam 1 cyn gynted â phosibl, a rhaid i'r penderfyniad ynghylch a yw ymgeisydd wedi cwblhau Cam 1 yn llwyddiannus gael ei wneud o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r asiantaeth faethu gael yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ar y cam hwnnw.

### Cam 1

**Yn unol â'r Rheoliadau, mae'r wybodaeth a gesglir yng Ngham 1 yn cynnwys y canlynol:**

- Manylion llawn yr ymgeisydd/ymgeiswyr a holl aelodau'r cartref yn ogystal ag unrhyw rai o blant yr ymgeiswyr sy'n byw yn rhywle arall.
- Cynnal gwiriadau cofnodion troseddol ar aelodau'r cartref drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)/Diogelu Grwpiau Agored i Niwed/ Disclosure Scotland/ Access NI ar bob aelod o'r cartref sy'n 16 oed neu'n hŷn, yn ogystal â gwiriadau gyda'r awdurdod lleol, NSPCC, iechyd, AGC, ac unrhyw asiantaethau maethu/mabwysiadu blaenorol.
- Mae'n bosibl y bydd gwiriadau cofnodion troseddol hefyd yn cael eu cynnal ar unrhyw ymwelydd rheolaidd arall â'r cartref a allai fod â gofal am blant maeth pan fyddant yn cael eu lleoli. Caiff rhai gwiriadau eu hailadrodd bob tair blynedd.
- Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd/ymgeiswyr gael archwiliad meddygol sy'n cael ei gwblhau gan ei feddyg teulu, sy'n anfon yr Adroddiad Meddygol wedi'i gwblhau at Gynghorydd Meddygol Barnardo's i gael sylwadau am iechyd yr ymgeisydd/ymgeiswyr.
- Gofynnir i'r ymgeisydd/ymgeiswyr hefyd enwi rhwng tri a chwech canolwr personol. Dewisir o leiaf dri ohonynt i ddarparu geirdaon ysgrifenedig a byddant hefyd yn cael eu cyfweld fel rhan o'r broses gymeradwyo. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn gofyn am ganiatâd i gysylltu âchyflogwr presennol neu flaenorol yr ymgeisydd. Byddwn hefyd yn cysylltu â phlant sy'n oedolion a phartneriaid blaenorol.

Bwriad Cam 1 y broses asesu yw rhoi gwybodaeth sylfaenol i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad am addasrwydd yr ymgeisydd (neu beidio) i symud ymlaen i Gam 2 yr asesiad lle cesglir gwybodaeth fanylach.



## Cam 2

**Os penderfynir ymgymryd â Cham 2 yr asesiad, mae rheoliadau yn nodi ei bod yn ofynnol i'r gwasanaeth maethu gael gwybodaeth am yr ymgeisydd/ymgeiswyr mewn perthynas â'r meysydd canlynol:**

- Manylion am bersonoliaeth a phrofiadau bywyd.
- Gallu i ofalu am blentyn/person ifanc o unrhyw gred grefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol penodol.
- Cyflogaeth neu alwedigaeth yn y gorffennol a'r presennol, safon byw, gweithgareddau hamdden a diddordebau.
- Profiad blaenorol (os o gwbl) o ofalu am eu plant eu hunain a phlant eraill.
- Sgiliau, cymhwysedd a pherthnasedd posibl i'w gallu i ofalu'n effeithiol am blentyn/person ifanc sy'n dod i fyw gyda nhw.

Bydd gweithiwr cymdeithasol cymwysedig a phrofiadol yn cynnal yr asesiad drwy ymweld â chartref yr ymgeisydd/ymgeiswyr nifer o weithiau, ac ar-lein, cyfarfod â phob aelod o'r teulu a chasglu gwybodaeth am brofiad a sgiliau'r ymgeisydd/ymgeiswyr. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chasglu a bydd yn sail i adroddiad asesu (Ffurflen F BAAF Coram). Mae'r adroddiad hwn yn cael ei rannu a'i drafod gyda'r ymgeiswyr.

Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer yr asesiad, darperir hyfforddiant – Sgiliau Maethu – gan y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys rôl a chyfrifoldebau rhieni maeth, gweithio gyda gwahanol asiantaethau, ac ymlyniad, trawma a datblygiad plentyn/ person ifanc. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd fynychu'r hyfforddiant.

## Cefnogi Rhieni Maeth

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's yn gwerthfawrogi gwaith a chyfraniad rhieni maeth i fywydau plant a phobl ifanc yn eu gofal. Yr hyn sy'n allweddol i gael cartref maeth llwyddiannus yw ansawdd y gefnogaeth y mae rhieni maeth yn ei chael. Mae gwasanaeth Maethu Barnardo's yn cynnig y canlynol i'n holl rieni maeth:

- Goruchwyliaeth a chefnogaeth gan Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig a phrofiadol o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm.
- Mynediad at linell gymorth y tu allan i oriau 24/7.
- Ymweliadau aml, (o leiaf unwaith y mis) a chyswllt rheolaidd dros y ffôn gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol
- O leiaf dau ymweliad dirybudd y flwyddyn.
- Cyfarfodydd grŵp cymorth rheolaidd a / neu Cymorth Cyfaill.
- Digwyddiadau i blant/pobl ifanc mewn cartrefi maeth, plant rhieni maeth a rhieni maeth.
- Rhaglen hyfforddiant ôl-gymeradwyo gynhwysfawr sy'n gysylltiedig â Safonau Hyfforddi, Cefnogi a Datblygu.
- Llawlyfr i rieni maeth.
- Lle bo'n briodol, a lle bo'n unol â chynllun gofal y plentyn/person ifanc, gwasanaeth seibiant wedi'i gynllunio i ddarparu profiadau amgen i'r plentyn/ person ifanc.
- Cysylltu ag awdurdodau lleol/ymddiriedolaethau gan gynnwys mynychu cyfarfodydd perthnasol.
- Lefel o gymorth ariannol sy'n gwerthfawrogi ac yn cydnabod sgiliau ac amser rhieni maeth, gan gynnwys ffi gofal maeth a lwfans maethu.

Mae ein teuluoedd yn cael eu cefnogi gan weithwyr Barnardo's sydd wedi'u hyfforddi mewn Seicotherapi Datblygiadol Dyadig (DDP). Mae DDP yn therapi, yn ddull magu plant ac yn fodel ar gyfer ymarfer sy'n defnyddio'r hyn a wyddom am ymlyniad a thrawma datblygiadol i helpu plant a theuluoedd gyda'u perthnasoedd.

## Cefnogi Rhieni Maeth

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's yn gwerthfawrogi gwaith a chyfraniad rhieni maeth i fywydau plant a phobl ifanc yn eu gofal. Yr hyn sy'n allweddol i gael cartref maeth llwyddiannus yw ansawdd y gefnogaeth y mae rhieni maeth yn ei chael. Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's yn cynnig y canlynol i'n holl rieni maeth:

- Goruchwyliaeth a chefnogaeth gan Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig a phrofiadol o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm.
- Mynediad at linell gymorth y tu allan i oriau 24/7.
- Ymweliadau aml, (o leiaf unwaith y mis) a chyswllt rheolaidd dros y ffôn gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol
- O leiaf dau ymweliad dirybudd y flwyddyn.
- Cyfarfodydd grŵp cymorth rheolaidd a / neu Cymorth Cyfaill.
- Digwyddiadau i blant/pobl ifanc mewn cartrefi maeth, plant rhieni maeth a rhieni maeth.
- Rhaglen hyfforddiant ôl-gymeradwyo gynhwysfawr sy'n gysylltiedig â Safonau Hyfforddi, Cefnogi a Datblygu.
- Llawlyfr i rieni maeth.
- Lle bo'n briodol, a lle bo'n unol â chynllun gofal y plentyn/person ifanc, gwasanaeth seibiant wedi'i gynllunio i ddarparu profiadau amgen i'r plentyn/person ifanc.
- Cysylltu ag awdurdodau lleol/ymddiriedolaethau gan gynnwys mynychu cyfarfodydd perthnasol.
- Lefel o gymorth ariannol sy'n gwerthfawrogi ac yn cydnabod sgiliau ac amser rhieni maeth, gan gynnwys ffi gofal maeth a lwfans maethu.

Mae ein teuluoedd yn cael eu cefnogi gan weithwyr Barnardo's sydd wedi'u hyfforddi mewn Seicotherapi Datblygiadol Dyadig (DDP). Mae DDP yn therapi, yn ddull magu plant ac yn fodel ar gyfer ymarfer sy'n defnyddio'r hyn a wyddom am ymlyniad a thrawma datblygiadol i helpu plant a theuluoedd gyda'u perthnasoedd.

## Hyfforddiant i Rieni Maeth

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's yn cydnabod bod maethu yn rôl gymhleth a heriol ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n hygyrch ac yn berthnasol i'n holl rieni maeth. Darperir hyfforddiant i helpu rhieni maeth i ddatblygu eu rôl fel gofalwyr maeth, er mwyn gwella eu gwybodaeth a diffinio a mireinio'r sgiliau sydd ganddyn nhw'n barod. Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu o fewn sylfaen gwerthoedd benodol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth. Mae'n ceisio sicrhau bod pob rhiant maeth yn gymwys ac yn hyderus i ddarparu gofal diogel ac i amddiffyn plant/pobl ifanc rhag niwed.

Cynigir hyfforddiant drwy gydol gyrfa rhiant gyda Gwasanaeth Maethu Barnardo's ac mae'n ymgorffori amrywiaeth o bynciau sy'n raddol datblygu gyda newidiadau mewn ymarfer, deddfwriaeth ac anghenion, dyma enghreifftiau:

- diogelu
- cofnodi
- cymorth cyntaf
- rheoli ymddygiad
- ymlyniad
- trawma, profedigaeth, colled
- iechyd a diogelwch
- cydberthynas ac iechyd rhywiol
- camfanteisio rhywiol
- meithrin gwydnwch
- hunan-barch a hunaniaeth
- gwaith stori bywyd
- rheoli a hyrwyddo amser gyda'r teulu
- datblygiad plant
- cyfle cyfartal
- ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol
- addysg ac iechyd
- gwrthradicaleiddio

# Monitro Ansawdd a Llywodraethiant

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cadw trosolwg ar reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn unol â'i gynllun busnes blynyddol. Gwneir hyn drwy ymgysylltu â phlant/ pobl ifanc, rhieni maeth a staff, dadansoddi data, mynychu paneli maethu, ymweld â'r gwasanaeth a chasglu;

| 1 | 2 | 3 |
| --- | --- | --- |
| adroddiad adolygu ansawdd gofal sy'n cael ei gwblhau bob chwe mis ac sy'n cynnwys asesiad o safon y gofal ac argymhellion cysylltiedig. | adroddiad ar ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael (a elwir yn fewnol yn QPI) bob chwarter. | cyflwyno ffurflen flynyddol i Gweinidogion Cymru (AGC). |

Mae amrywiaeth o systemau ar waith i fonitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaethau maethu Barnardo's, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol a bod yr ansawdd o safon briodol:



**Adolygiadau Blynyddol Rhieni Maeth**

Ffurflenni adborth - adolygiad rhieni maeth a phlant/pobl ifanc sy'n cael eu maethu

**Adborth gan blant/pobl ifanc o'r sesiynau cyfranogi**

Arfarniadau staff blynyddol

**Goruchwylio rhieni maeth bob mis**

Goruchwylio staff yn rheolaidd Adborth gan rieni maeth ynghylch hyfforddiant

**Adborth gan weithwyr proffesiynol eraill Adborth gan awdurdodau lleol/gweithwyr ymddiriedolaeth**

Hyfforddwyr yn gwerthuso rhieni maeth

**Adborth gan aelodau'r panel a mynychwyr y panel**

Archwiliadau Ffeil

**Adolygiadau perfformiad a gwelliannau chwarterol gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Pennaeth Datblygu Gwasanaeth ac Ansawdd**

Monitro Allanol drwy brosesau monitro'r ALl/ Ymddiriedolaeth/Fframwaith

**Monitro allanol drwy gyrff rheoleiddio fel arolygiaeth gofal ac Ofsted**



# Cwynion, canmoliaeth, honiadau a chwythu'r chwiban

## Cwynion

Nod proses gwyno Barnardo's yw datrys cwyn ar y lefel fwyaf anffurfiol posibl. Gellir cyflwyno cwynion yn ysgrifenedig neu ar lafar i unrhyw aelod o staff hyd at ac yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol.

**Dyma'r camau ar gyfer cwyn:**

**Cam Un – Datrys yn Gynnar**

Mau gweithiwr neu reolwr yn gwrando ar y gŵyn ac yn cytuno ar gamau gweithredu i ddatrys y sefyllfa. Mae'n gyfle i ddatrys pryderon neu gwynion hb ddefnyddio proses ffurfiol.

**Cam Un – Cwyn Ffurfiol**

Pan nad yw'r gweithiwer neu'r rheolwr gallu datrys pryderon yn y cam datrys cynnar neu os yw'r gŵyn o'r fath fel bod y rheolwr yn ystyried y bydda cam un yn addas.

**Cam Dau – Cwyn Derfynol**

Pan ymchwiliwyd i'r gŵyn yng Ngham Un a bod yr achwyndd yn dal yn anfodlon â'r canlyniad. Y rheowr sy'r arwain ar gwynion sy'n gwneud y penderfyniad i ymchwillio yng ngham dau. Rheolwr arall fydd y swyddog ymchwilio a bydd person annibynnol yn eu cysgodi yn yr ymchwiliad.

Cyswllt cwynion:

**Barnardo's Head Office, Tanners Lane, Ilford, Essex IG6 1QG**

Rhif ffôn: **020 8550 8822** e-bost: **cs.complaints@barnardos.org.uk**



## Canmoliaeth

Rydym yn dathlu ein gwaith a'n cyflawniadau drwy gofnodi canmoliaeth a chymeradwyaeth. Dyma ddetholiad o sylwadau a wnaed am ein staff a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig:

Rhiant maeth

**"Diolch yn fawr i chi a Barnardo's am ddiwrnod yn Crocky Trail ddoe. Fe wnaeth y ddwy ferch fwynhau eu hunain yn fawr iawn ac roedd yn arbennig o braf eu gweld yn meithrin perthynas gyda'r plant eraill oedd yno a hefyd yn cryfhau eu perthynas nhw'u hunain â'i gilydd."**

Rhiant maeth

**"Mae'r gefnogaeth rydw i wedi'i chael hyd yma gan ein gweithiwr wedi bod yn anhygoel, mae hi wedi cynnig cwrdd â mi am goffi neu i siarad am bethau ac wedi bod yn seren, diolch."**

Rhiant maeth

**"Diolch yn fawr iawn i chi am eich holl help a'ch cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn heriol iawn i ni, fel y gwyddoch."**

Rhiant maeth

**"Diolch i chithau hefyd, roedden ni wir yn gwerthfawrogi ein hymweliad â chi ddoe. Mae wedi rhoi ymdeimlad newydd o bwrpas i ni, yn ogystal â'n hatgoffa o'r rheswm pan y gwnaethon ni ddewis Barnardo's."**

Gweithiwr Cymdeithasol Awdurdod Lleol:

**"Roedd y llyfr croeso yn hyfryd ac yn un o'r rhau gorau mae ein tîm wedi'i weld. Roeddwn i'n gallu gadael y llyfrau i'r plant gael pori drwyddyn nhw ar ôl i mi adael... roedd y llyfrau wir yn cefnogi cyfnod pontio'r plant."**

Gweithiwr Cymdeithasol Awdurdod Lleol:

**"Roeddwn i eisiau eich canmol am ysgrifennu llythyr mor hyfryd at X. Dwi'n meddwl ei bod hi'n gallu bod yn anodd weithiau i rieni maeth wybod sut i gyfathrebu'n iawn â rhieni naturiol oherwydd gall fod yn anodd iawn deall y ddeinameg. Fodd bynnag, roeddwn yn meddwl bod eich llythyr wedi'i ysgrifennu'n hyfryd. Roedd yn gydbwysedd perffaith rhwng rhannu gwybodaeth a dangos eich bod yn poeni am deulu geni y bechgyn heb orbwysleisio pa mor agos ydych chi atyn nhw, a allai fod wedi ypsetio X. Da iawn chi. Diolch yn fawr iawn. Mae'r bechgyn yn wirioneddol lwcus i'ch cael chi'n ofalwyr."**

## Honiadau yn erbyn rhieni maeth/staff

Ymchwilir i honiadau a wneir gan neu ar ran plentyn/person ifanc drwy Weithdrefnau Diogelu o dan 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2018' ac yn unol â gweithdrefnau diogelu'r awdurdod lleol/ymddiriedolaeth. Mae rhieni maeth yn cael eu cefnogi gan Barnardo's yn ystod honiad ac yn cael eu hannog i gael gafael ar gefnogaeth drwy eu haelodaeth o'r Rhwydwaith Maethu, neu drwy gymorth annibynnol gan Barnardo's.

## Chwythu'r Chwiban

Chwythu'r chwiban yw rhoi gwybod, er lles y cyhoedd, am bryder bod rhywbeth yn digwydd yn Barnardo's na ddylai ddigwydd, neu nad yw'n digwydd er y dylai ddigwydd. Mae'n seiliedig ar Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae Barnardo's wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd ac ymarfer a gellir codi pryderon drwy'r broses Chwythu'r Chwiban.

Safecall yw ein darparwr gwasanaeth Chwythu'r Chwiban, ac mae eu manylion isod. Mae'r ddolen **yma** hefyd yn egluro sut rydym yn delio ag unrhyw adroddiadau a gawn. Gallwch chi gysylltu â Safecall ar 0800 915 1571 neu ar-lein drwy **'Roi gwybod am Bryder Chwythu'r Chwiban'**. Ni fydd modd olrhain eich adroddiad ac mae gan Safecall weithredwyr wedi'u hyfforddi i'ch cefnogi. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, mae'n gyfrinachol ac yn agored 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

## Ffyrdd eraill o gwyno

Pan fo gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda chorff allanol (e.e. Arolygiaeth Gofal), gall achwynwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r corff rheoleiddio perthnasol. Mae gan y corff rheoleiddio y pŵer i ymchwilio i'r gŵyn ei hun neu fynnu bod Barnardo's neu'r awdurdod lleol perthnasol yn gwneud hynny.

Manylion cyswllt:
**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), swyddfa Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Rhif ffôn: **0300 7900 126**

**www.gov.uk/government/organisations/ofsted**

Gallwch chi hefyd gysylltu a'r Comisiynydd Plant
**www.childrenscommissioner.gov.uk**
**Oystermouth House Charter Court, Swansea**
**SA7 9FS**

Ffôn: **01792 765 600**



# Rheoleiddio ac Arolygu

Arolygir y gwasanaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a'n Rhif cofrestru yw W010000722/M001/0002.

Manylion cyswllt:
**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), swyddfa Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr TudfulCF48 1UZ**

Ffôn: **0300 7900 126**



© Barnardo's, 2024 Cedwir pob hawl

Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, gan gynnwys y lluniau, na'i storio ar system ad-alw awdurdodedig, na'i drawsyrru mewn unrhyw ffurf na mewn unrhyw ffordd, heb ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.

Modelau sydd yn y lluniau ac mae'r enw wedi'i newid er mwyn diogelu manylion personol.

barnardos.org.uk

Barnardo House Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG. 020 8550 8822.

Northern Ireland 542–544 Upper Newtownards Road, Belfast BT4 3HE. 028 9067 2366.

Scotland 111 Oxgangs Road North, Edinburgh EH14 1ED. 0131 446 7000.

Barnardo's Cymru, Canolfan Deulu Trelái,
Y Rhodfa Fawr, Caerdydd CF5 4LE. 029 2057 7074.

Rhifau Cofrestru Elusennol Barnardo's 216250 and SC037605 26192mw25

Newid Plentyndod. Newid Bywydau.
Changing childhoods. Changing lives.